Cyllid & Thollau EF

# Nodiadau: Preswylfa, sail trosglwyddo ac ati

Blwyddyn dreth 6 Ebrill 2023 i 5 Ebrill 2024 (2023–24)

## Defnyddiwch y nodiadau hyn i'ch helpu i lenwi tudalennau Preswylfa, sail trosglwyddo ac ati eich Ffurflen Dreth

Os ydych am gyflwyno tudalennau Preswylfa, sail trosglwyddo ac ati ar-lein bydd angen i chi brynu meddalwedd oddi wrth gyflenwr masnachol.

> I gael rhestr o gyflenwyr meddalwedd Hunanasesiad masnachol, ewch i www.gov.uk/government/publications/self-assessment-commercial-software-suppliers

Peidiwch â chyflwyno'r tudalennau 'Preswylfa, sail trosglwyddo ac ati' fel atodiad electronig i'ch Ffurflen Dreth ar-lein.

Llenwch y tudalennau 'Preswylfa, sail trosglwyddo ac ati' os:

- nid ydych yn breswylydd yn y DU
- ydych yn breswylydd yn y DU ac:
  - — yn gymwys am Rhyddhad Diwrnod Gwaith Dramor (OWR)
  - — wedi dod yn breswylydd yn y DU yn ystod y flwyddyn dreth hon
  - — mae triniaeth blwyddyn ranedig yn ddilys i chi
  - — mae gennych ddomisil tu allan i'r DU
  - — mae gennych incwm neu enillion cyfalaf o dramor ac rydych am ddefnyddio'r sail trosglwyddo ar gyfer blwyddyn dreth 2023 i 2024

> I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau sydd dan sylw yn y nodiau hyn, gweler y llyfryn RDR1, 'Guidance Note: Residence, Domicile and the Remittance Basis'. Ewch i www.gov.uk a chwilio am 'RDR1'.

### Eich enw a Chyfeirnod Unigryw y Trethdalwr

Rhowch eich enw a Chyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) yn y blychau ar frig y ffurflen.

| Eich enw | Eich Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) |
| --- | --- |
| Paul Smith | 1 3 5 7 9 2 4 6 8 0 |

Enghraifft o flychau enw ac UTR wedi'u llenwi

### Blwch 1 Os nad oeddech yn breswylydd yn y DU ar gyfer 2023 i 2024

Mae'ch rhwymedigaeth treth yn dibynnu ar ble yr ydych yn 'breswylydd' ynddi ac ymhle mae'ch 'domisil' yn ystod blwyddyn dreth.

> I gael rhagor o wybodaeth am y Prawf Preswylio Statudol, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'Residence domicile and remittance basis manual'.

Os ydych yn llenwi'r tudalennau ar ran rhywun a fu farw yn ystod blwyddyn dreth 2023 i 2024, bydd angen i chi ddarllen RDRM11900 ymlaen i'ch helpu i weithio allan eich statws preswyl.

Os gwnaethoch roi 'X' ym mlwch 1, ewch i flwch 4. Nid yw blychau 2 i 3.1 yn gymwys. Rhaid i chi hefyd lenwi blychau 7 i 14, lle bo hynny'n berthnasol.

Mae cyfeiriad at 'breswyl' yn y nodiadau hyn yn golygu preswyl o dan y rheolau ar gyfer blynyddoedd treth cyn 2013 i 2014 a phreswyl o dan y Prawf Preswylio Statudol ar gyfer y blynyddoedd wedi hynny.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/tax-on-foreign-income-rules-for-the-tax-year-ending-5-april-2013 neu ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HMRC6'.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/rdr3-statutory-residence-test-srt neu ewch i www.gov.uk a chwilio am 'RDR3'.

### Blwch 2 Os ydych yn gymwys am Ryddhad Diwrnod Gwaith Dramor ar gyfer 2023 i 2024

Os oes gennych enillion o gyflogaeth yn ystod blwyddyn dreth pan oeddech yn breswyl yn y DU, mae'r enillion hynny yn drethadwy yn y DU pan ydych yn eu cael.

Nid yw'ch enillion tramor (gweler RDR4, nodyn 4) yn drethadwy yn y DU, os ydych yn bodloni'r amodau canlynol i gyd:

- nid yw eich domisil yn y DU
- rydych wedi'ch trethu ar y sail trosglwyddo (gweler RDR4, 'rhyddhad diwrnod gwaith dramor')
- gweithredir eich cyflogaeth (yn llawn neu'n rhannol) y tu allan i'r DU
- mae'r flwyddyn naill ai
  - — y flwyddyn dreth gyntaf sy'n syth ar ôl 3 blwyddyn dreth nad oeddech yn breswyl yn y DU ar eu cyfer
  - — un o'r 2 flwyddyn dreth ar ôl y fath flwyddyn

Os nad ydych yn dod a'ch enillion tramor i'r DU yn y flwyddyn dreth a gawsoch hwy, nid ydynt yn drethadwy yn y DU ar gyfer y flwyddyn dreth honno. Hyn yw Rhyddhad Diwrnod Gwaith Dramor (OWR).

Os gwnaethoch roi 'X' ym mlwch 2 ond nid ym mlwch 3, peidiwch â llenwi blwch 10. Ond os gwnaethoch roi 'X' ym mlychau 2 a 3, rhaid i chi roi nifer y diwrnodau a dreuliwyd yn y DU yn ystod y rhan dramor o'r flwyddyn dreth ym mlwch 10. Nid yw diwrnod gwaith dramor yr un fath ar gyfer OWR ag y mae ar gyfer y Prawf Preswylio Statudol (SRT). Gweler RDR4 ar gyfer y diwrnodau gwaith OWR ac RDRM11150 ar gyfer diwrnodau gwaith SRT.

> I gael rhagor o wybodaeth am Ryddhad Diwrnod Gwaith Dramor, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'RDR4'.

### Blwch 3 Os yw'ch amgylchiadau'n bodloni'r meini prawf i gael triniaeth blwyddyn ranedig ar gyfer 2023 i 2024

Dim ond os ydych yn breswylydd yn y DU ar gyfer y flwyddyn y mae triniaeth blwyddyn ranedig yn ddilys; os gwnaethoch roi 'X' ym mlwch 1, nid yw triniaeth blwyddyn ranedig yn ddilys.

Os ydych yn breswylydd yn y DU mewn blwyddyn dreth, rydych yn talu treth y DU fel pe baech yn breswylydd am y flwyddyn dreth gyfan. Fodd bynnag, os ydych yn breswylydd, yn dod yn breswylydd neu'n peidio â bod yn breswylydd yn ystod y flwyddyn, rhaid i chi ystyried a oes unrhyw achos o flwyddyn ranedig yn berthnasol i chi. Os felly, byddwch yn cael triniaeth blwyddyn ranedig a bydd y flwyddyn dreth yn cael ei rhannu'n rhan DU ac yn rhan dramor, a dim ond ar yr incwm sy'n deillio o'r rhan DU o'r flwyddyn y byddwch yn talu treth.

Mae 8 set o amgylchiadau lle gallech fodloni'r meini prawf ar gyfer triniaeth blwyddyn ranedig.

| | |
|---|---|
| Achos 1 | Dechrau gwaith amser llawn dramor - darllenwch RDRM12040 i RDRM12080. |
| Achos 2 | Partner rhywun sy'n dechrau gwaith amser llawn dramor - darllenwch RDRM12090 i RDRM12120. |
| Achos 3 | Rhoi'r gorau i gael cartref yn y DU - darllenwch RDRM12130 ac RDRM12140. |
| Achos 4 | Dechrau cael cartref yn y DU yn unig - darllenwch RDRM12150 ac RDRM12160. |
| Achos 5 | Dechrau gwaith amser llawn yn y DU - darllenwch RDRM12170 ac RDRM12180. |
| Achos 6 | Rhoi'r gorau i waith amser llawn dramor - darllenwch RDRM12190 i RDRM12230. |
| Achos 7 | Partner rhywun sydd wedi rhoi'r gorau i waith amser llawn dramor - darllenwch RDRM12240 i RDRM12260. |
| Achos 8 | Dechrau cael cartref yn y DU - darllenwch RDRM12270 ac RDRM12280. |

Os gwnaethoch roi 'X' ym mlwch 3:
- rhaid i chi gynnwys manylion am ba achos o flwyddyn ranedig sy'n berthnasol i chi yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 40
- peidiwch â rhoi 'X' ym mlwch 1 ond llenwch flwch 6
- rhowch nifer y diwrnodau a dreuliwyd yn y DU yn ystod y rhan dramor o'r flwyddyn dreth ym mlwch 10

### Blwch 3.1 Os oes mwy nag un achos o driniaeth blwyddyn ranedig yn berthnasol

Rhowch 'X' ym mlwch 3.1 os ydych yn meddwl bod mwy nag un achos o driniaeth blwyddyn ranedig yn berthnasol ar gyfer blwyddyn dreth 2023 i 2024. Rhowch fanylion am ba achosion sy'n berthnasol i chi yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 40, sy'n dechrau ar dudalen RR 3.

> I gael rhagor o wybodaeth darllenwch RDRM12000, triniaeth blwyddyn ranedig. Ewch i www.gov.uk a chwilio am 'Residence domicile and remittance basis manual'.

### Blwch 4 Os oeddech yn breswylydd yn y DU ar gyfer 2022 i 2023

Rhowch 'X' ym mlwch 4 os oeddech yn breswylydd yn y DU ar gyfer blwyddyn dreth 2022 i 2023 a bod un o'r canlynol yn wir amdanoch:
- ddim yn breswylydd ar gyfer blwyddyn dreth 2023 i 2024
- yn breswylydd ar gyfer blwyddyn dreth 2023 i 2024 ac mae triniaeth blwyddyn ranedig yn berthnasol i chi

### Blwch 5 Os ydych wedi gwneud cofnod ym mlwch 2 ac mae unrhyw ran o'ch enillion tramor ar gyfer blwyddyn gynharach

Rhowch 'X' ym mlwch 5 os yw unrhyw ran o'r swm Rhyddhad Diwrnod Gwaith Dramor a gynhwysir ym mlwch 12 ar dudalen Ai 2 y dudalen 'Gwybodaeth ychwanegol', neu'r swm cyfan, ar gyfer arian a gafwyd yn ystod blwyddyn dreth 2023 i 2024 ond yr enillwyd mewn blwyddyn dreth flaenorol.

### Blwch 6 Os oes gennych gofnod ym mlwch 3, nodwch y dyddiad y mae'r rhan DU o'r flwyddyn yn dechrau neu'n dod i ben

Gweler blwch 3 am ragor o wybodaeth.

### Blwch 7 Os ydych yn bodloni'r trydydd prawf tramor awtomatig

Mae canllawiau i'ch helpu i benderfynu a ydych yn bodloni'r prawf hwn ai peidio ar gael yn RDRM11140.

### Blwch 8  Os oedd gennych fwlch rhwng un gyflogaeth a'r llall yn ystod 2023 i 2024

Rhowch 'X' ym mlwch 8 os ydych wedi rhoi 'X' ym mlwch 7 ac rydych wedi cael bwlch rhwng un gyflogaeth a'r llall yn ystod 2023 i 2024. Dylid nodi dyddiad dechrau a gorffen pob bwlch yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 40.

> I gael rhagor o wybodaeth darllenwch RDRM11160. Ewch i www.gov.uk a chwilio am 'Remittance domicile and remittance basis manual'.

### Blwch 9  Os oedd gennych gartref dramor yn ystod 2023 i 2024

Rhowch 'X' ym mlwch 9 os oedd gennych un neu fwy o gartrefi dramor a'ch bod wedi treulio o leiaf 30 diwrnod yn unrhyw un o'r cartrefi hynny yn ystod blwyddyn dreth 2023 i 2024, rhowch 'X' ym mlwch 9. Rhaid i chi ystyried pob cartref dramor ar wahân.

> I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n cael ei ystyried yn gartref, darllenwch RDRM11130 ac Atodiad A y RDRM13010. Ewch i www.gov.uk a chwilio am 'Residence domicile and remittance basis manual'.

### Blwch 10  Nifer y diwrnodau a dreuliwyd yn y DU yn ystod 2023 i 2024

Llenwch flwch 10, dim ond os ydych wedi rhoi 'X' ym mlychau 1, 2 neu 3. Rhowch gyfanswm y diwrnodau yn ystod blwyddyn dreth 2023 i 2024 pan oeddech yn y DU am hanner nos ym mlwch 10. Yn ogystal â'r dyddiau pan oeddech yn y DU am hanner nos, dylech gynnwys unrhyw ddyddiau dros 30 sy'n cyfrif fel dyddiau tybiedig. Nodwch ym mlwch 40 faint o ddyddiau tybiedig sydd wedi'u cynnwys ym mlwch 10.

Rhaid i chi gynnwys unrhyw ddiwrnodau pan oeddech yn y DU am hanner nos o ganlyniad i amgylchiadau eithriadol (gweler blwch 11). Rhowch sero ym mlwch 10 os na wnaethoch dreulio unrhyw ddiwrnodau yn y DU ym mlwyddyn dreth 2023 i 2024.

Os ydych yn hawlio triniaeth blwyddyn ranedig ac wedi rhoi 'X' ym mlwch 3, dylai'r cofnod ym mlwch 10 fod ar gyfer diwrnodau a dreuliwyd yn y DU ar gyfer y rhan dramor o'r flwyddyn yn unig.

Nid oes angen i chi gynnwys diwrnodau teithio ym mlwch 10, ond rhowch nifer y diwrnodau yr oeddech yn teithio yn y DU ym mlwch 11.1.

### Diwrnodau tybiedig

Mae'r Prawf Preswylio Statudol yn gofyn i chi gyfrif nifer y diwrnodau rydych yn eu treulio yn y DU. Mae'r rhain yn ddiwrnodau pan rydych yn y DU am hanner nos.

Yn amodol ar y rheol tybio, ni fydd unrhyw ddiwrnodau pan nad ydych yma am hanner nos yn cyfrif fel diwrnod wedi'i dreulio yn y DU.

Mae'r rheol tybio'n berthnasol os ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf canlynol:

- wedi bod yn breswylydd yn y DU yn ystod un neu fwy o'r 3 blwyddyn dreth flaenorol
- o leiaf 3 rhwymyn i'r DU ar gyfer y flwyddyn dreth
- wedi bod yn bresennol yn y DU am fwy na 30 diwrnod yn y flwyddyn dreth pan nad ydych wedi bod yma am hanner nos

Ni fydd y rheol tybio'n berthnasol os ydych wedi rhoi 'X' ym mlwch 7.

### Blwch 11  Nifer y diwrnodau ym mlwch 10 a briodolir i amgylchiadau eithriadol

Rhowch gyfanswm y diwrnodau rydych wedi'u treulio yn y DU o ganlyniad i amgylchiadau eithriadol y tu hwnt i'ch rheolaeth ym mlwch 11. Er enghraifft, salwch a ddigwyddodd pan oeddech yn y DU a oedd yn eich rhwystro rhag teithio.

Byddai enghreifftiau eraill o amgylchiadau eithriadol yn cynnwys trychinebau cenedlaethol a lleol, fel aflonyddwch dinesig, trychinebau naturiol, a rhyfel yn cychwyn.

Ni ellir priodoli mwy na 60 o ddiwrnodau i amgylchiadau eithriadol mewn unrhyw flwyddyn dreth - ni ddylai'r rhif ym mlwch 11 fod yn fwy na 60.

> I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch Atodiad B y RDRM13200. Ewch i www.gov.uk a chwilio am 'Residence domicile and remittance manual'.

### Blwch 11.1  Nifer y diwrnodau pan oeddech yn y DU am hanner nos yn ystod 2023 i 2024, ond roeddech yn teithio drwyddi

Rhowch gyfanswm y diwrnodau pan oeddech yn y DU am hanner nos yn ystod 2023 i 2024, ond roeddech yn teithio drwyddi, ym mlwch 11.1.

Ystyr 'diwrnod teithio' yw diwrnod pan rydych yn teithio o un wlad y tu allan i'r DU i wlad arall y tu allan i'r DU, ac yn ystod eich taith:

- rydych yn cyrraedd y DU fel teithiwr ac yn gadael y diwrnod wedyn
- rhwng cyrraedd a gadael y DU, nid ydych yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â'ch taith drwy'r DU

Peidiwch â chynnwys y diwrnodau hyn fel rhan o gofnod ym mlwch 10.

### Blwch 12 Sawl rhwymyn i'r DU oedd gennych yn ystod 2023 i 2024?

Cymerwch y cam canlynol ar gyfer blwch 12:

- os nad ydych wedi rhoi 'X' ym mlwch 1 ond wedi rhoi 'X' ym mlwch 3 oherwydd eich bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer unrhyw o achosion 4, 5 ac 8 o flwyddyn ranedig, rhowch nifer y rhwymau â'r DU yr oedd gennych yn y rhan dramor o flwyddyn dreth 2023 i 2024 ym mlwch 12
- os nad ydych wedi llenwi blwch 1 na blwch 3, nid oes yn rhaid i chi lenwi blwch 12

At ddibenion y Prawf Preswylio Statudol, ystyr rhwymau yw cysylltiadau sydd gennych â'r DU. Mae nifer y rhwymau sydd gennych â'r DU yn pennu nifer y diwrnodau gallwch eu treulio yma cyn eich bod yn breswylydd y DU. Mae 5 rhwym y mae rhaid i chi eu hystyried.

#### Rhwymyn teuluol

Mae gennych rwymyn teuluol os yw eich gŵr, eich gwraig, eich partner sifil (oni bai eich bod wedi gwahanu), neu eich partner (yr ydych yn byw ag ef/hi fel gŵr neu wraig) yn breswylydd yn y DU ar gyfer blwyddyn dreth 2023 i 2024. Gallwch hefyd gael rhwymyn teuluol os oes gennych blentyn (dan 18 oed) sy'n breswylydd yn y DU ar gyfer blwyddyn dreth 2023 i 2024, ond mae rheolau arbennig yn berthnasol – gweler RDRM11510 ymlaen.

#### Rhwymyn llety

Mae gennych rwymyn llety os oes gennych rywle i fyw yn y DU sydd ar gael i chi am gyfnod parhaus o 91 diwrnod. Rhaid i chi dreulio o leiaf un noson yn y man hwn yn ystod blwyddyn dreth 2023 i 2024.

Mae hyn yn codi i 16 noson os yw'r llety sydd ar gael yn gartref i berthynas agos.

#### Rhwymyn gwaith

Mae gennych rwymyn gwaith os ydych yn gwneud o leiaf 40 diwrnod o waith yn y DU yn ystod blwyddyn dreth 2023 i 2024. Er mwyn iddo gyfrif fel diwrnod, rhaid i chi weithio am fwy na 3 awr bob dydd.

#### Rhwymyn 90 diwrnod

Mae gennych rwymyn 90 diwrnod os, yn y blynyddoedd treth 2021 i 2022 neu 2022 i 2023 (y naill un neu'r llall), roeddech yn y DU am fwy na 90 diwrnod (am hanner nos).

#### Rhwymyn gwlad

Mae gennych rwymyn gwlad os ydych yn treulio'r rhan fwyaf o'ch diwrnodau (am hanner nos) yn y DU yn ystod blwyddyn dreth 2023 i 2024. Nid oes yn rhaid i chi ystyried y rhwymyn hwn oni bai eich bod yn breswylydd yn y blynyddoedd treth 2020 i 2021, 2021 i 2022 a 2022 i 2023 (un neu fwy ohonynt).

### Blwch 13 Nifer o ddiwrnodau y gwnaethoch weithio mwy na 3 awr yn y DU yn ystod 2023 i 2024

Os ydych wedi rhoi 'X' ym mlwch 1 a blwch 7 oherwydd eich bod yn bodloni'r trydydd prawf tramor awtomatig ar gyfer blwyddyn dreth 2023 i 2024, rhowch gyfanswm y diwrnodau gwnaethoch weithio am fwy na 3 awr yn y DU yn ystod blwyddyn dreth 2023 i 2024 ym mlwch 13.

Os nad ydych wedi rhoi 'X' ym mlwch 1 ond wedi rhoi 'X' ym mlwch 3 oherwydd eich bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer unrhyw o achosion 1 a 6 o flwyddyn ranedig, rhowch gyfanswm y diwrnodau gwnaethoch weithio am fwy na 3 awr yn y DU yn ystod y rhan dramor o'r flwyddyn ym mlwch 13.

### Blwch 14 Nifer o ddiwrnodau y gwnaethoch weithio mwy na 3 awr dramor yn ystod 2023 i 2024

Os ydych wedi rhoi 'X' ym mlwch 2, rhowch gyfanswm y diwrnodau gwaith dramor sy'n gysylltiedig â'ch hawliad am Ryddhad Diwrnod Gwaith Dramor ar gyfer blwyddyn dreth 2023 i 2024 ar ei hyd ym mlwch 14. Os ydych wedi rhoi 'X' ym mlychau 2 a 3, dim ond nifer y diwrnodau gwaith dramor ar gyfer eich hawliad am Ryddhad Diwrnod Gwaith Dramor ar gyfer rhan DU blwyddyn dreth 2023 i 2024 y mae'n rhaid i chi ei roi ym mlwch 14.

#### Pa weithgareddau mae 'gwaith' yn eu cynnwys?

Gweler RDRM11740.

## Lwfansau personol ar gyfer y rhai nad ydynt yn breswyl a phreswylwyr deublyg

### Blwch 15 Os, yn sgil cytundeb trethiant dwbl, mae'r hawl gennych i hawlio lwfansau personol fel rhywun nad yw'n breswyl

Rhowch 'X' ym mlwch 15 os ydych yn hawlio lwfansau personol fel rhywun nad yw'n breswyl dan delerau cytundeb trethiant dwbl (CTD), a'ch bod yn bodloni un o'r amodau canlynol:

- rydych yn wladolyn yn Israel a Jamaica
- rydych yn wladolyn ac yn breswylydd yn yr Aifft, yr Ariannin, Awstralia, Azerbaijan, Bangladesh, Belarws, Bolifia, Bosnia-Hertsegofina, Botswana, Canada, Corea (Gweriniaeth), Cote d'Ivoire, De Affrica, Feneswela, Fietnam, Ffederasiwn Rwsia, Gambia, Gwlad Thai, India, Indonesia, yr Iorddonen, Japan, Kazakhstan, Lesotho, Maleisia, Montenegro, Moroco, Nigeria, Oman, Pacistan, Papwa Gini Newydd, Philipinau, Seland Newydd, Serbia, Simbabwe, Sri Lanka, Swdan, y Swistir, Taiwan, Tajikistan, Tiwnisia, Trinidad a Tobago, Turkmenistan, Twrci, Uganda, yr Wcráin neu Wsbecistan

- rydych yn breswylydd yn Awstria, Barbados, Burma, Cenia Fiji, Gwlad Belg, Gwlad Groeg, yr Iseldiroedd, Iwerddon, Lwcsembwrg, Mawrisiws, Namibia, Portiwgal, Sambia, Swaziland, Sweden, neu'r Swistir

Peidiwch â rhoi 'X' ym mlwch 15 os ydych naill ai'n:

- rydych yn breswylydd yn Cenia, Mawrisiws neu Sambia
- rydych yn breswylydd ond ddim yn ddinesydd yn Awstria, Gwlad Belg, Lwcsembwrg, Portiwgal, Sweden neu'r Swistir

ac mae'ch incwm yn cynnwys difidendau, llog a breindaliadau (neu gyfuniad o unrhyw rhai ohonynt) yn unig

Nid oes hawl gennych i lwfansau personol os yw'r amodau hyn yn gymwys.

I gefnogi eich hawliad, mae arnoch angen tystysgrif o breswyliaeth (ar gyfer cyfnod eich hawliad) gan yr awdurdod treth dramor a, lle y bo'n briodol, dogfennau (er enghraifft pasbort) i ddangos eich bod yn wladolyn y wlad honno. Cadwch eich tystysgrif a'ch dogfennau mewn lle diogel rhag ofn y bydd angen i ni eu gweld rhywbryd eto.

> I gael rhagor o wybodaeth am ryddhad fel rhywun nad yw'n breswyl dan y cytundebau trethiant dwbl, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS304'.

### Blwch 16  Os oes gennych yr hawl i hawlio lwfansau personol fel rhywun nad yw'n breswyl ar ryw sail arall, neu fel defnyddiwr y sail trosglwyddo preswyliwr deuol o dan delerau cytundebau trethiant dwbl penodol

Rhowch 'X' ym mlwch 16 os oes hawl gennych i hawlio lwfansau personol fel rhywun nad yw'n breswyl yn y DU, oherwydd:

- eich bod yn ddinesydd y DU neu'n wladolyn aelod-wladwriaeth arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Dyma restr o'r gwledydd sy'n Aelod-wladwriaethau yr AEE: Yr Almaen, Awstria, Bwlgaria, Croatia, Denmarc, y Deyrnas Unedig, yr Eidal, Estonia, y Ffindir, Ffrainc, Cyprus, Gweriniaeth Slofac (Slofacia), Gweriniaeth Tsiec, Gwlad Belg, Gwlad Groeg, Gwlad Pwyl, Gwlad yr Iâ, Hwngari, yr Iseldiroedd, Iwerddon, Latfia, Liechtenstein, Lithwania, Lwcsembwrg, Malta, Norwy, Portiwgal, România, Slofenia, Sbaen a Sweden
- rydych yn breswylydd yn Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel
- eich bod wedi preswylio yn y DU o'r blaen ac yn preswylio dramor er mwyn eich iechyd, neu iechyd aelod o'ch teulu sy'n byw gyda chi
- eich bod wedi'ch cyflogi yng ngwasanaeth y Goron, un ai yn awr neu o'r blaen
- eich bod wedi'ch cyflogi yng ngwasanaeth unrhyw Wladwriaeth sydd dan warchodaeth Ei Fawrhydi
- eich bod wedi'ch cyflogi yng ngwasanaeth unrhyw gymdeithas genhadol
- eich bod yn wraig weddw, yn ŵr gweddw, neu'n bartner sifil sy'n goroesi yr oedd eich diweddar ŵr, gwraig neu bartner sifil yng ngwasanaeth y Goron

### Preswylwyr deuol yn hawlio'r sail trosglwyddo

Rhowch 'X' ym mlwch 16 os ydych yn llenwi blwch 28 i hawlio'r sail trosglwyddo ac yn hawlio eich bod yn 'breswylydd deuol', oherwydd eich bod yn breswylydd yn un o'r gwledydd canlynol. Awstria, Barbados, Cenia, Fiji, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd, Iwerddon, Lwcsembwrg, Mawrisiws, Namibia, Portiwgal, Sambia, Swaziland, Sweden, a'r Swistir.

Nodwch beth yw'r wlad arall yr ydych yn hawlio bod yn breswylydd ynddi yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 40.

Os ydych yn hawlio'r sail trosglwyddo ac yn breswylydd yn y DU ac un o'r gwledydd uchod (ill dau), mae hawl gennych i lwfansau personol y DU ac i'r Swm Blynyddol sydd wedi ei Eithrio rhag Treth ar gyfer enillion trethadwy.

### Blychau 17 i 19

Llenwch flwch 17, dim ond os ydych wedi llenwi blychau 15 neu 16.

Llenwch flwch 19 dim ond os ydych wedi llenwi blwch 18 a'ch bod yn breswylydd yn un o'r gwledydd neu'r ddwy wlad a ddangosir ym mlwch 18 yn ystod blynyddoedd treth 2022 i 2023 a 2023 i 2024.

Defnyddiwch y rhestr gwledydd neu diriogaethau i ddod o hyd i'r cod 3 llythyren sydd ei angen arnoch i lenwi blychau 17 i 19.

Defnyddiwch res ar wahân ar gyfer pob gwlad.

| 17 | Nodwch y cod/codau ar gyfer y wlad neu'r gwledydd yr ydych yn ddinesydd a/neu'n preswyliwr ynddi/ynddynt – *darllenwch y nodiadau*<br>J E Y |
|---|---|

Enghraifft o god y wlad ar gyfer Jersey

## Rhestr o wledydd neu diriogaethau

Mae '•' yn ail golofn y rhestr yn dangos bod gan y DU gytundeb trethiant dwbl (CTD) gyda'r wlad neu'r diriogaeth honno

| Gwlad neu diriogaeth | CTD | cod 3 llythyren |
|---|---|---|
| Affganistan | | AFG |
| Yr Aifft | • | EGY |
| Albania | • | ALB |
| Algeria | • | DZA |
| Yr Almaen | • | DEU |
| Andorra | | AND |
| Angola | | AGO |
| Anguilla | | AIA |
| Antigwa a Barbwda | • | ATG |
| Yr Ariannin | • | ARG |
| Armenia | • | ARM |
| Arwba | | ABW |
| Awstralia | • | AUS |
| Awstria | • | AUT |
| Azerbaijan | • | AZE |
| Bahamas | | BHS |
| Bahrain | • | BHR |
| Bangladesh | • | BGD |
| Barbados | • | BRB |
| Belarws | • | BLR |
| Belize | • | BLZ |
| Benin | | BEN |
| Bermwda | | BMU |
| Bhwtan | | BTN |
| Bolifia | • | BOL |
| Bonaire | | BES |
| Bosnia a Hertsegofina | • | BIH |
| Botswana | • | BWA |
| Brasil | | BRA |
| Brunei Darussalam | • | BRN |
| Burkino Faso | | BFA |
| Burma (a elwir hefyd yn Myanmar) | • | MMR |
| Bwlgaria | • | BGR |
| Bwrwndi | | BDI |
| Caledonia Newydd | | NCL |
| Cambodia | | KMH |
| Camerŵn | | CMR |
| Canada | • | CAN |
| Cape Verde | | CPV |
| Cenia | • | KEN |
| Ciribati | • | KIR |

| Gwlad neu diriogaeth | CTD | cod 3 llythyren |
|---|---|---|
| Colombia | • | COL |
| Comoros | | COM |
| Congo | | COG |
| Costa Rica | | CRI |
| Côte d'Ivoire | • | CIV |
| Coweit | • | KWT |
| Croatia | • | HRV |
| Curaçao | | CUW |
| Cwba | | CUB |
| Cyprus | • | CYP |
| De Affrica | • | ZAF |
| De Corea | • | KOR |
| Denmarc | • | DNK |
| De Swdan | | SSD |
| Y Deyrnas Unedig | | GBR |
| Djibouti | | DJI |
| Dominica | | DMA |
| Ecwador | | ECU |
| Yr Eidal | • | ITA |
| El Salvador | | SLV |
| Yr Emiraethau Arabaidd Unedig | • | ARE |
| Eritrea | | ERI |
| Estonia | • | EST |
| Ethiopia | | ETH |
| Y Fatican | • | VAT |
| Feneswela | • | VEN |
| Ffederasiwn Rwsiaidd | • | RUS |
| Y Ffindir | • | FIN |
| Ffrainc | • | FRA |
| Fiet-nam | • | VNM |
| Fiji | • | FJI |
| Gabon | | GAB |
| Gaiana | • | GUY |
| Gaiana Ffrengig | • | GUF |
| Gambia | • | GMB |
| Georgia | • | GEO |
| Ghana | • | GHA |
| Gibraltar | • | GIB |
| Gini | | GIN |
| Gini Trofanol | | GNQ |
| Gini-Bissau | | GNB |
| Gogledd Corea | | PRK |
| Grenada | • | GRD |
| Guadeloupe | • | GLP |
| Guernsey | • | GGY |
| Gwam | | GUM |

| Gwlad neu diriogaeth | CTD | cod 3 llythyren |
|---|---|---|
| Gwatemala | | GTM |
| Gweriniaeth Canol Affrica | | CAF |
| Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo (Zaire gynt) | | COD |
| Gweriniaeth Dominica | | DOM |
| (Gweriniaeth) Iwerddon | • | IRL |
| Gweriniaeth Slofacia | • | SVK |
| Gwlad Belg | • | BEL |
| Gwlad Groeg | • | GRC |
| Gwlad yr Iâ | • | ISL |
| Gwlad Pwyl | • | POL |
| Gwlad Thai | • | THA |
| Haiti | | HTI |
| Hondwras | | HND |
| Hong Kong (SAR) | • | HKG |
| Hwngari | • | HUN |
| India | • | IND |
| Indonesia | • | IDN |
| Yr Iorddonen | • | JOR |
| Irac | | IRQ |
| Iran | | IRN |
| Yr Iseldiroedd | • | NLD |
| Israel | • | ISR |
| Jamaica | • | JAM |
| Japan | • | JPN |
| Jersey | • | JEY |
| Kazakhstan | • | KAZ |
| Kosovo | • | KSV |
| Kyrgyzstan | • | KGZ |
| Laos | | LAO |
| Latfia | • | LVA |
| Lesotho | • | LSO |
| Libanus | | LBN |
| Liberia | | LBR |
| Libya | • | LBY |
| Liechtenstein | • | LIE |
| Lithwania | • | LTU |
| Lwcsembwrg | • | LUX |
| Macao (SAR) | | MAC |
| Macedonia (FYR) | • | MKD |
| Madagascar | | MDG |
| Malawi | • | MWI |
| Maldives | | MDV |
| Maleisia | • | MYS |
| Mali | | MLI |
| Malta | • | MLT |
| Martinique | • | MTQ |

| Gwlad neu diriogaeth | CTD | cod 3 llythyren |
|---|---|---|
| Mawrisiws | • | MUS |
| Mawritania | | MRT |
| Mayotte | | MYT |
| Mecsico | • | MEX |
| Micronesia | | FSM |
| Moldofa | • | MDA |
| Monaco | | MCO |
| Mongolia | • | MNG |
| Montenegro | • | MNE |
| Montserrat | • | MSR |
| Moroco | • | MAR |
| Mosambîc | | MOZ |
| Namibia | • | NAM |
| Nawrw | | NRU |
| Nepal | | NPL |
| Nicaragwa | | NIC |
| Niger | | NER |
| Nigeria | • | NGA |
| Niue | | NIU |
| Norway | • | NOR |
| Oman | • | OMN |
| Pacistan | • | PAK |
| Palau | | PLW |
| Panama | • | PAN |
| Papwa Gini Newydd | • | PNG |
| Paragwâi | | PRY |
| Perw | | PER |
| Polynesia Ffrengig | | PYF |
| Portiwgal | • | PRT |
| Puerto Rico | | PRI |
| Qatar | • | QAT |
| Reunion | • | REU |
| România | • | ROU |
| Rwanda | | RWA |
| Saba | • | BES |
| Sambia | • | ZMB |
| Samoa | | WSM |
| Samoa Americanaidd | | ASM |
| San Marino | | SMR |
| Sao Tome a Principe | | STP |
| Saudi Arabia | • | SAU |
| Sbaen | • | ESP |
| Seland Newydd | • | NZL |
| Senegal | • | SEN |
| Serbia a Montenegro | • | SRB |
| Seychelles | | SYC |

| Gwlad neu diriogaeth | CTD | cod 3 llythyren |
|---|---|---|
| Sierra Leone | • | SLE |
| Simbabwe | • | ZWE |
| Singapôr | • | SGP |
| Sint Eustatius | • | BES |
| Sint Maarten (y rhan Iseldiraidd) | | SXM |
| Slofenia | • | SVN |
| Somalia | | SOM |
| Sri Lanka | • | LKA |
| St Helena a'i Dibyniaethau | | SHN |
| St Kitts a Nevis | • | KNA |
| St Lucia | | LCA |
| St Pierre a Miquelon | | SPM |
| St Vincent a'r Grenadines | | VCT |
| Swaziland | • | SWZ |
| Swdan | • | SDN |
| Sweden | • | SWE |
| Y Swistir | • | CHE |
| Swrinam | | SUR |
| Syria | | SYR |
| Taiwan | • | TWN |
| Tajikistan | • | TJK |
| Tansanïa | | TZA |
| Timor-Leste | | TLS |
| Tiwnisia | • | TUN |
| Togo | | TGO |
| Tokelau | | TKL |
| Tonga | | TON |
| Trinidad a Tobago | • | TTO |
| Tsiad | | TCD |
| Tsieina | • | CHN |
| Tsile | • | CHL |
| Turkmenistan | • | TKM |
| Twfalw | • | TUV |
| Twrci | • | TUR |
| Unol Daleithiau America | • | USA |
| Vanuatu | | VUT |
| Wcráin | • | UKR |
| Wganda | • | UGA |
| Wrwgwái | • | URY |
| Wsbecistan | • | UZB |
| Y Weriniaeth Tsiec | • | CZE |
| Yemen | | YEM |
| Yr Ynys Las | | GRL |
| Ynys Manaw | • | IMN |
| Ynys Pitcairn | | PCN |
| Ynys y Nadolig | • | CXR |

| Gwlad neu diriogaeth | CTD | cod 3 llythyren |
|---|---|---|
| Ynysoedd Caiman | • | CYM |
| Ynysoedd Cocos (Keeling) | • | CCK |
| Ynysoedd Cook | | COK |
| Ynysoedd y Falkland | • | FLK |
| Ynysoedd Ffaröe | • | FRO |
| Ynysoedd Gogledd Mariana | | MNP |
| Ynysoedd Marshall | | MHL |
| Ynys Norfolk | • | NFK |
| Ynysoedd y Philipinau | • | PHL |
| Ynysoedd Solomon | • | SLB |
| Ynysoedd Svalbard a Jan Mayen | | SJM |
| Ynysoedd Twrcs a Caicos | | TCA |
| Ynysoedd yr Wyryf Prydeinig | • | VGB |
| Ynysoedd yr Wyryf yr Unol Daleithiau | | VIR |
| Ynysoedd Wallis a Futuna | | WLF |
| Dim un o'r uchod | | ZZZ |

(Rhowch fanylion yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 40 ar dudalen RR3.)

## Statws preswyl mewn gwledydd eraill

### Blwch 20 Swm yr incwm cytundeb trethiant dwbl y mae rhyddhad rhannol yn cael ei hawlio ar ei gyfer

Bydd angen Taflen Gymorth 304, 'Non-residents – relief under double taxation agreements' arnoch i'ch helpu i lenwi'r blwch hwn. Bydd angen i chi hefyd lenwi ac anfon y ffurflen hawlio briodol sy'n rhan o'r daflen gymorth.

I gael rhagor wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS304'.

### Blwch 21 Rhyddhad o dan gytundeb trethiant dwbl rhwng y DU a gwledydd eraill – swm a hawliwyd oherwydd cytundeb yn dyfarnu hawl i breswylio i wlad arall

Nodwch swm treth y DU a ddidynnwyd ym mlwch 21 yn unig. Bydd angen Taflen Gymorth 302, 'Dual residency' arnoch i'ch helpu i lenwi'r blwch hwn. Bydd angen i chi hefyd lenwi ac anfon y ffurflen hawlio briodol sy'n rhan o'r daflen gymorth.

I gael rhagor wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS302'.

### Blwch 22 Rhyddhad a hawliwyd oherwydd darpariaethau eraill y cytundebau trethiant dwbl perthnasol

Nodwch swm treth y DU a ddidynnwyd ym mlwch 22 yn unig. Bydd angen Taflen Gymorth 304, 'Non-residents – relief under double taxation agreements' arnoch i'ch helpu i lenwi'r blwch hwn. Bydd angen i chi hefyd lenwi ac anfon y ffurflen hawlio briodol sy'n rhan o'r daflen gymorth.

> I gael rhagor wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS304'.

## Domisil

### Deall domisil

Nid yw domisil yr un fath â chenedligrwydd neu breswylfa. Fel rheol, mae eich domisil yn y wlad lle mae eich cartref 'go iawn' neu barhaol.

Ni allwch fod heb ddomisil, a dim ond un domisil gallwch ei gael ar y tro.

Mae 3 math o ddomisil:

- **Domisil gwreiddiol** – mae pawb yn cael domisil gwreiddiol adeg eu geni, sef y wlad lle mae cartref parhaol eich tad fel rheol. Os nad oedd eich rhieni'n briod pan ganwyd chi, mae eich domisil gwreiddiol yn deillio o'ch mam.
  Efallai y bydd eich domisil yn newid os byddwch yn penderfynu setlo'n barhaol neu am gyfnod amhenodol mewn gwlad ar wahân i'ch domisil gwreiddiol.
- **Domisil dibyniaeth** – os ydych yn gyfreithiol ddibynnol ar berson arall, er enghraifft oherwydd eich bod yn blentyn, rydych yn debygol o fod â'r un domisil â'r person arall – felly os bydd ei ddomisil yn newid, efallai y bydd eich un chi yn newid hefyd. Os ydych yn ferch a'ch bod wedi priodi cyn 1974, cawsoch yr un domisil â'ch gŵr yn awtomatig, fel domisil o ddewis. Os oeddech, cyn 1974, yn wladolyn yr Unol Daleithiau a briododd dyn â'i ddomisil yn y DU, roeddech yn cadw eich domisil Unol Daleithiau at ddibenion treth y DU.
- **Domisil o ddewis** – pan fyddwch wedi cyrraedd 16 oed (yn gynharach yn yr Alban), mae gan unigolyn yr hawl gyfreithiol i gael domisil annibynnol drwy setlo mewn gwlad arall a ffurfio'r bwriad i aros yno'n barhaol neu am gyfnod amhenodol.

**O 6 Ebrill 2017 ymlaen mae'r darpariaethau domisil tybiedig yn berthnasol. Darllenwch y nodiadau ategol i flychau 23.1, 23.2 a 23.3.**

Peidiwch â llenwi blychau 23 i 27 os nad ydych yn defnyddio'r sail trosglwyddo ar gyfer trethiant, neu os nad yw eich domisil yn berthnasol ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2024.

Mae blwch 23 yn cyfeirio at eich statws domisil yn ôl cyfraith gyffredinol a chyfraith gyffredin. Felly, ticiwch y blwch os yw'ch domisil y tu allan i'r DU ac mae'n berthnasol i'ch rhwymedigaeth treth. Os bernir bod eich domisil yn y DU ac felly'n agored i dalu ar y sail sy'n codi, dylai fod:

- 'X' ym mlwch 23
- yna 'X' yn naill ai blwch 23.1 neu 23.2
- yna llenwch flychau 23.3 i 27 os ydych yn cymryd mantais o'r diogeliadau ar gyfer ymddiriedolaethau fel eich bod dim ond yn cael eich trethu ar y buddiannau a gafwyd o ymddiriedolaeth wedi'i diogelu, yn hytrach na'r incwm a'r enillion yn yr ymddiriedolaeth fel y maent yn codi – nid yw hyn ar gael i unigolion y tybir bod eu domisil o dan Amod A

### Unigolion nad ydynt yn breswyl dros dro, enillion cyfalaf ac incwm

Pan fyddwch yn dychwelyd i'r DU ar ôl peidio â bod yn breswyl yma dros dro, efallai y cewch eich trethu ar incwm ac enillion penodol a gododd yn ystod eich cyfnod o beidio â bod yn breswyl dros dro. Darllenwch RDRM12610 ymlaen.

Mae'r rheolau sy'n berthnasol yn dibynnu ar y flwyddyn dreth pan adawoch chi'r DU. Ar gyfer Treth Incwm, os gadawoch chi'r DU yn ystod blwyddyn dreth 2012 i 2013 neu mewn blwyddyn dreth gynharach, darllenwch HMRC6. Os digwyddodd hyn yn ystod blwyddyn dreth 2013 i 2014 neu mewn blwyddyn dreth ddiweddarach, darllenwch RDR1 ac RDRM10200 ymlaen.

> I gael rhagor wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'RDR1' neu 'RDRM10200'
>
> I gael HMRC6, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HMRC6'

> I gael gwybodaeth am Dreth Enillion Cyfalaf, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS278'.

### Blwch 23 Os yw'ch domisil y tu allan i'r DU ac mae'n berthnasol i'ch rhwymedigaeth Treth Incwm neu Dreth Enillion Cyfalaf ar gyfer 2023 i 2024

Os gwnaethoch roi 'X' ym mlwch 23, mae'n rhaid i chi lenwi blychau 23.1 i 40 fel sy'n briodol.

### Blwch 23.1 Os ystyrir bod eich domisil yn y DU o dan Amod A

Byddwch yn bodloni Amod A os ganwyd chi yn y DU â'r DU fel domisil gwreiddiol, a'ch bod yn breswylydd yn y DU ar gyfer blwyddyn dreth 2023 i 2024.
Os ydych wedi rhoi 'X' yn y blwch hwn ni allwch hawlio'r sail trosglwyddo. Rhaid i chi roi cofnod ym mlwch 25.

### Blwch 23.2 Os ystyrir bod eich domisil yn y DU o dan Amod B

Byddwch yn bodloni Amod B os ydych wedi bod yn breswylydd yn y DU am o leiaf 15 o'r 20 mlynedd cyn 2023 i 2024, a'ch bod yn breswylydd yn y DU ar gyfer blwyddyn dreth 2023 i 2024. Os ydych wedi rhoi 'X' yn y blwch hwn ni allwch hawlio'r sail trosglwyddo. Efallai y bydd yn rhaid i chi lenwi blychau 23.3, 26 a 27. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'ch ymgynghorydd treth.

### Blwch 23.3 Nodwch nifer y blynyddoedd rydych wedi bod yn breswyl yn y DU yn ystod y 20 mlynedd flaenorol

Rhaid i chi lenwi'r blwch hwn os ydych yn bodloni Amod B.

### Blwch 25 Os ydych wedi rhoi 'X' ym mlwch 23 ac mae gennych ddomisil gwreiddiol o fewn y DU, nodwch y dyddiad y gwnaeth eich domisil newid

Os nad ydych yn gwybod y dyddiad y gwnaeth eich domisil newid, defnyddiwch 5 Ebrill ar ddiwedd y flwyddyn dreth pan ddigwyddodd y newid, a rhoi manylion pellach yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 40. Llenwch unrhyw flychau eraill yn yr adran hon sy'n berthnasol i chi hefyd.

### Blwch 26 Os cawsoch eich geni yn y DU ond dyw'ch domisil erioed wedi bod yma

Os gwnaethoch roi 'X' ym mlwch 26, mae'n rhaid i chi lenwi blychau 28 i 40 fel sy'n briodol.

### Blwch 27 Os ydych wedi rhoi 'X' ym mlwch 23 a chawsoch eich geni y tu allan i'r DU, nodwch y dyddiad y daethoch i fyw yn y DU am y tro cyntaf

Os ydych wedi rhoi 'X' ym mlwch 23, rhaid i chi nodi'r dyddiad y daethoch i fyw yn y DU am y tro cyntaf yn y blwch hwn.

## Sail trosglwyddo

Os ydych yn breswylydd yn y DU, byddwch yn talu treth ar eich holl incwm fel y mae'n codi fel arfer, ac ar eich enillion wrth iddynt gronni, lle bynnag yn y byd y mae'r incwm a'r enillion hynny'n digwydd.

Mae'r sail trosglwyddo yn sail wahanol ar gyfer trethiant sydd ar gael i rai unigolion sy'n breswylwyr yn y DU. Os ydych yn gymwys, gallwch hawlio'r sail trosglwyddo drwy lenwi blwch 28.

Peidiwch â llenwi blychau 28 i 39.1 os nad ydych yn hawlio'r sail trosglwyddo ar gyfer blwyddyn dreth 2023 i 2024.

Peidiwch â llenwi blychau 28 i 39 os nad ydych yn breswylydd yn y DU. Dim ond Preswylwyr yn y DU sy'n gallu hawlio'r sail trosglwyddo.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: www.gov.uk/tax-uk-income-live-abroad neu i www.gov.uk a chwilio am 'RDR1'.

## Incwm o gynilion a difidendau tramor nad yw wedi'i gwmpasu gan y sail trosglwyddo

Mae rheol arbennig yn berthnasol os oedd gennych fwy na 5% o gyfranddaliadau neu warantau mewn cwmni caeedig yn y DU y gwnaethoch eu cyfnewid am swm cyfatebol o gyfranddaliadau neu warantau mewn cwmni y tu allan i'r DU ar neu ar ôl 17 Tachwedd 2022. Mae'r rheol hon yn trin incwm sy'n cael ei dalu ar warantau a ddelir yn y cwmni y tu allan i'r DU fel pe baent yn gyfranddaliadau neu'n warantau a ddelir mewn cwmni yn y DU.

Os ydych yn talu treth ar y sail trosglwyddo, a bod y rheol arbennig hon yn gymwys, dylech gynnwys fanylion yr incwm hwn ym mlwch 40, 'Unrhyw wybodaeth arall'. Rhowch y canlynol:

- cyfanswm yr incwm difidend (mewn punnoedd y DU) cyn didynnu unrhyw dreth dramor neu Dreth Ataliedig Arbennig (TAA)
- cyfanswm y llog ar gynilion (mewn punnoedd y DU) cyn didynnu unrhyw dreth dramor neu Dreth Ataliedig Arbennig (TAA)
- swm y dreth dramor neu TAA a dalwyd
- y cod gwlad neu god tiriogaeth lle talwyd y dreth a chadarnhad eich bod yn hawlio'r rhyddhad credyd treth tramor ar yr incwm hwn a bod gennych yr hawl i wneud hynny

### Blwch 28 Os ydych yn hawlio'r sail trosglwyddo ar gyfer 2023 i 2024

Os ydych wedi rhoi 'X' ym mlwch 28, mae'n rhaid i chi lenwi blwch 23 i gadarnhau eich statws. Os ydych wedi llenwi naill ai blwch 23.1 neu flwch 23.2, ni allwch hawlio'r sail trosglwyddo ac ni ddylid nodi unrhyw beth ym mlwch 28 oni bai bod eich incwm a'ch enillion cyfalaf na chawsant eu trosglwyddo yn llai na £2,000 (rydych wedi rhoi 'X' ym mlwch 29).

Rhaid i chi hefyd lenwi blwch 28 os ydych wedi llenwi blwch 12 ar dudalen Ai 2 y tudalennau 'Gwybodaeth Ychwanegol' (peidiwch â llenwi blwch 29 os yw eich swm ym mlwch 12 yn fwy na £1,999).

### Blwch 29 Os yw'ch incwm ac enillion cyfalaf na chawsant eu trosglwyddo ar gyfer 2023 i 2024 yn llai na £2,000

Gallwch hefyd lenwi'r blwch hwn os tybir mai'r DU yw eich domisil a bod eich incwm na chafodd ei drosglwyddo yn llai na £2,000.

I ganfod a yw eich incwm ac enillion na chawsant eu trosglwyddo ar gyfer y flwyddyn yn is na'r trothwy £2,000, didynnwch (ar gyfer pob math o arian) cyfanswm yr incwm tramor a drosglwyddwyd o gyfanswm yr incwm tramor a gafwyd yn y flwyddyn dreth.

Troswch y balans yn bunnoedd y DU gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid ar ddiwrnod olaf y flwyddyn dreth (5 Ebrill 2024), a defnyddio'r cyfanswm i ganfod swm yr 'incwm tramor na chafodd ei drosglwyddo'. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'ch ymgynghorydd treth.

I ganfod swm yr enillion trethadwy tramor na chawsant eu trosglwyddo, defnyddiwch y gyfradd gyfnewid (punnoedd y DU) ar y dyddiad caffael a'r dyddiad gwaredu.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i RDRM31190 yn y 'Residence, Domicile and Remittance Basis Manual' yn www.gov.uk/government/collections/hmrc-manuals

### Blwch 30 Os ystyriwyd bod eich domisil yn y DU ar gyfer 2023 i 2024 a'ch bod wedi trosglwyddo i'r DU unrhyw ran o'ch incwm neu'ch enillion tramor a gododd yn ystod blwyddyn pan wnaethoch hawlio'r sail trosglwyddo yn flaenorol

Os ydych wedi rhoi 'X' ym mlwch 30, rhowch fanylion llawn yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 40, a gwneud yn siŵr eich bod wedi datgan yr incwm neu'r enillion ar y tudalennau priodol ar eich Ffurflen Dreth.

### Blwch 31 Os oeddech yn breswylydd yn y DU ar gyfer 2023 i 2024 ac am 12 neu fwy o'r 14 blwyddyn dreth flaenorol

Rhowch 'X' ym mlwch 31 os ydych wedi bod yn breswylydd tymor hir yn y DU am 12 neu fwy o'r 14 blwyddyn dreth flaenorol (ond llai na 15 o'r 20 blwyddyn dreth flaenorol), a'ch bod wedi rhoi 'X' ym mlwch 28.

Os ydych wedi rhoi 'X' ym mlwch 31 byddwch yn talu'r ffi sail trosglwyddo o £60,000, oni bai:

- bod gennych lai na £2,000 o incwm neu enillion tramor na chawsant eu trosglwyddo o'r flwyddyn dreth 2023 i 2024 (gweler blwch 29)
- eich bod o dan 18 oed ar 5 Ebrill 2024 (llenwch flwch 33 os yw hyn yn wir)

Os gwnaethoch roi 'X' ym mlwch 31 (ond nid ym mlychau 29 neu 33), llenwch flychau 34 i 40 fel sy'n briodol

### Blwch 32 Os oeddech yn breswylydd yn y DU ar gyfer 2023 i 2024 ac am 7 neu fwy o'r 9 blwyddyn dreth flaenorol

Rhowch 'X' ym mlwch 32 os ydych wedi bod yn breswylydd yn y DU am 7 neu fwy o'r 9 blwyddyn dreth flaenorol (ond llai na 12 o'r 14 blwyddyn dreth flaenorol), a'ch bod wedi rhoi 'X' ym mlwch 28.

Os ydych wedi rhoi 'X' ym mlwch 32 byddwch yn talu'r ffi sail trosglwyddo o £30,000, oni bai:

- bod gennych lai na £2,000 o incwm neu enillion tramor na chawsant eu trosglwyddo o'r flwyddyn dreth 2023 i 2024 (gweler blwch 29)
- eich bod o dan 18 oed ar 5 Ebrill 2024 (llenwch flwch 33 os yw hyn yn wir)

Os gwnaethoch roi 'X' ym mlwch 32 (ond nid ym mlychau 29 neu 33), llenwch flychau 34 i 40 fel sy'n briodol.

### Blwch 33 Os oeddech yn iau na 18 ar 5 Ebrill 2024

Os yw blwch 33 yn berthnasol i chi oherwydd eich bod o dan 18 oed ar 5 Ebrill 2024, ni fydd yn rhaid i chi dalu'r ffi sail trosglwyddo hyd yn oed os ydych yn 'breswylydd tymor hir' a'ch bod wedi llenwi blwch 31 neu 32. Os ydych wedi rhoi 'X' yn y blwch hwn, nodwch eich dyddiad geni yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 40.

Byddwch yn dal yn colli eich hawl i lwfansau personol a'r Swm Blynyddol sydd wedi ei Eithrio rhag Treth os ydych wedi llenwi blwch 28 a hawlio'r sail trosglwyddo, oni bai eich bod wedi rhoi 'X' ym mlwch 29 oherwydd bod gennych lai na £2,000 o incwm neu enillion tramor na chawsant eu trosglwyddo ar gyfer blwyddyn dreth 2023 i 2024.

Os ydych yn cyfrifo eich treth eich hun, cofiwch ddangos y colledion lwfansau yn eich cyfrifiad treth.

### Blychau 34 a 35 Symiau o incwm neu enillion cyfalaf enwebedig

Rhaid i chi lenwi blychau 34 a 35 os ydych wedi rhoi 'X' (yn unig) ym mlychau 28, 31 neu 32.

Y Ffi Sail Trosglwyddo yw Treth Incwm, Treth Enillion Cyfalaf, neu gyfuniad o'r ddwy, a godir ar incwm neu enillion tramor na chawsant eu trosglwyddo ar y sail sy'n codi. Pan fyddwch yn talu'r Ffi Sail Trosglwyddo, rhaid i chi roi gwybod i ni ar ba incwm neu enillion mae'r Ffi'n daladwy drwy enwebu'r incwm neu enillion priodol. Rydych yn gwneud hyn drwy roi swm yr incwm enwebedig ym mlwch 34 neu'r enillion tramor enwebedig ym mlwch 35. Rhowch fanylion i ni am yr incwm ac enillion enwebedig yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 40.

I gyfrifo swm yr incwm dramor enwebedig, dylech drosi'r incwm i bunnoedd y DU, gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid ar yr adeg pan gododd yr incwm. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'ch ymgynghorydd treth.

Os ydych yn cyfrifo eich treth eich hun, cofiwch gynnwys yr elfennau Treth Incwm neu Dreth Enillion Cyfalaf o'r Ffi Sail Trosglwyddo yn eich cyfanswm treth. Os ydych yn defnyddio'r dudalen 'Crynodeb o'r cyfrifiad treth', ychwanegwch naill ai £30,000 neu £60,000 at y swm ym mlwch 1.

Cofiwch ddangos y colledion lwfansau a'r Swm Blynyddol sydd wedi ei Eithrio rhag Treth yn eich cyfrifiad treth.

Os oes rhaid i chi dalu'r Ffi Sail Trosglwyddo, rhaid i chi roi ffigur enwebedig o £1 o leiaf ym mlwch 34 neu flwch 35.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i RDRM32320 yn y Llawlyfr Preswylfa, Domisil a Sail Trosglwyddo yn www.gov.uk/government/collections/hmrc-manuals

### Blwch 36  Addasiadau i daliadau ar gyfrif ar gyfer enillion cyfalaf

Os ydych wedi rhoi swm ym mlwch 35, enwebiad ar gyfer enillion cyfalaf, rhowch swm y Dreth Enillion Cyfalaf a gynhwysir yn Ffi'r Sail Trosglwyddo o £30,000 neu £60,000 ym mlwch 36.

Os ydych yn cyfrifo eich treth eich hun, peidiwch â chynnwys y swm a ddangosir ym mlwch 36 yn eich cyfrifiad taliadau ar gyfrif.

### Blwch 37  Os ydych wedi trosglwyddo incwm neu enillion yn ystod 2023 i 2024

Rhowch 'X' ym mlwch 37 os ydych wedi trosglwyddo unrhyw incwm neu enillion tramor enwebedig o fwy na £10 ar gyfer unrhyw flwyddyn dreth yn ystod blwyddyn dreth 2023 i 2024. Os yw'r incwm neu'r ennill yn ymwneud â mwy nag un flwyddyn dreth, rhowch ddadansoddiad o'r swm yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 40.

### Blwch 38  Os ydych yn hawlio rhyddhad o dreth y DU ar gyfer incwm tramor neu enillion a fuddsoddwyd mewn busnes cymwys yn ystod 2023 i 2024

Yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 40, rhowch ddadansoddiad o'r symiau a fuddsoddwyd ym mhob cwmni ar wahân.

I gael rhagor o wybodaeth am ryddhad buddsoddiadau busnes a'r amodau cymhwyso, darllenwch RDRM34300 ymlaen yn y Llawlyfr Preswylfa, Domisil a Sail Trosglwyddo yn www.gov.uk/government/collections/hmrc-manuals

### Blwch 39  Os ydych wedi hawlio rhyddhad yn y gorffennol ar gyfer buddsoddiad cymwys ond nid yw'r buddsoddiad bellach yn gymwys ar gyfer rhyddhad

Os ydych wedi rhoi 'X' ym mlwch 39, rhaid i chi roi gwybod i ni beth yw swm y buddsoddiad nad yw'n gymwys mwyach a rhif cofrestru'r cwmni yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 40. Rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr hawliad yn cael ei dynnu'n ôl. Rhaid talu unrhyw dreth sy'n ddyledus ar y trosglwyddiad.

### Blwch 39.1  Rhowch 'X' yn y blwch os oes gennych incwm neu enillion yn y DU a farnwyd i fod o dramor o dan reolau cwmni sy'n dal asedion cymwys

Rhaid i chi roi 'X' ym mlwch 39.1 os oes gennych incwm neu enillion yn y DU a farnwyd i fod o dramor o dan reolau cwmni sy'n dal asedion cymwys. Nid oes gofyn i chi roi gwybod i ni faint o incwm neu enillion yn y DU a farnwyd i fod o dramor.

I gael rhagor o wybodaeth am gwmnïau sy'n dal asedion cymwys a'r sail trosglwyddo, gweler IFM41000 ymlaen yn y Llawlyfr Cronfeydd Buddsoddi IFM41000 yn www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/investment-funds/ifm41000

I gael rhagor o wybodaeth am reolau cwmnïau sy'n dal asedion cymwys, gweler IFM40000 ymlaen yn y Llawlyfr Cronfeydd Buddsoddi yn www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/investment-funds/ifm40000

### Blwch 40  Unrhyw wybodaeth arall

Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol yn y blwch hwn, er enghraifft unrhyw:

- incwm neu enillion enwebedig
- cyfraniadau Rhodd Cymorth yn y DU
- hawliadau am ryddhad trethiant dwbl
- incwm neu enillion tramor enwebedig (dros £10) a drosglwyddwyd yn ystod blwyddyn dreth 2023 i 2024, sy'n ymwneud â mwy nag un flwyddyn dreth
- buddsoddiad nad yw bellach yn gymwys ar gyfer rhyddhad
- manylion incwm neu enillion tramor a drosglwyddwyd os tybir mai'r DU yw'ch domisil
- incwm a gafwyd o gyfranddaliadau neu warantau mewn cwmni y tu allan i'r DU sy'n cael ei drin fel cyfranddaliadau neu warantau mewn cwmni yn y DU oherwydd gwaith o gyfnewid sy'n digwydd ar neu ar ôl 17 Tachwedd 2022

## Rhagor o gymorth os bydd ei angen arnoch

I gael copïau o unrhyw daflenni cymorth neu ffurflenni treth, ewch i www.gov.uk/ffurflenni-a-thaflenni-hunanasesiad

Gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 i gael cymorth gyda'ch Ffurflenni Treth.

Gall diddanwyr a sbortsmyn nad ydynt yn breswyl cael rhagor o help o'r swyddfa ganlynol:

**Diddanwyr a sbortsmyn nad ydynt yn breswyl**
Elusennau, Cynilion a Rhyngwladol 1 /
Charities, Savings and International 1
Cyllid a Thollau EF / HM Revenue and Customs
BX9 1AU

Ffôn: 03000 547 395 (o'r DU)
00 44 3000 547 395 (o dramor)

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad mewn Braille, ar sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Cysylltwch â'n llinellau cymorth am ragor o wybodaeth.

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar yr hawl i apelio.